## Canllawiau i Ddysgwyr

## Cynllun Mentora Dysgwyr Prifysgol Aberystwyth
## Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg

### Cyflwyniad

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i roi cefnogaeth ymarferol i staff sy'n dysgu'r Gymraeg yn unol â thelerau Cynllun Iaith Gymraeg 2003 (cymal 6.7) ac mae'r Cynllun Iaith Diwygiedig yn cyfeirio at fentora fel rhan bwysig o weithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog.

Wrth ddatblygu Cynllun Mentora Dysgwyr anelir at gyflawni'r amcanion hyn:

i. gwella sgiliau llafar dysgwyr Cymraeg a chynyddu eu hyder
ii. annog defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
iii. dangos i ddysgwyr Cymraeg bod y Brifysgol yn cydnabod yr ymdrech y maent yn ei gwneud i ddysgu'r iaith
iv. cyfle i siaradwyr rhugl ymarfer eu sgiliau cyfathrebu a chael boddhad wrth helpu cydweithiwr i gyflawni eu nod
v. dangos i siaradwyr Cymraeg bod y Brifysgol yn cydnabod y ffaith bod ganddynt sgil sy'n werthfawr
vi. meithrin yr ymdeimlad o fod yn rhan o gymuned y Brifysgol (drwy gwrdd â staff o adrannau gwahanol)
vii. hyrwyddo Cymreictod y Brifysgol mewn modd anfygythiol

### Beth yw'r Cynllun Mentora ar gyfer dysgwyr y Gymraeg?

Pwrpas y cynllun mentora yw rhoi cyfle i ddysgwyr y Gymraeg ymarfer yr hyn maent wedi'i ddysgu gyda pherson cyfeillgar ac amyneddgar sy'n fodlon rhoi cyfnod penodol o amser iddynt tua unwaith bob wythnos/pythefnos i sgwrsio gyda hwy mewn awyrgylch anffurfiol ac anfygythiol. Gyda dysgwyr mwy profiadol mae'n gyfle iddynt glywed acenion gwahanol a chlywed y Gymraeg yn cael ei siarad yn 'naturiol'. Mae ymchwil yn dangos bod dysgwyr sy'n cymryd mantais o gynllun mentora 45% yn fwy tebygol o ddod yn rhugl, ac 87% yn fwy tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg ar ryw lefel yn y gweithle.[1]

Mae gweithleoedd eraill yng Nghymru hefyd yn cynnal cynlluniau mentora i ddysgwyr y Gymraeg e.e. Cymal, Llywodraeth y Cynulliad, Llyfrgell Prifysgol Bangor.

### Pwy yw'r mentoriaid?

Aelodau o staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl. Gall rhain fod yn siaradwyr iaith gyntaf, neu'n ddysgwyr profiadol iawn.

### Sut fyddaf i'n elwa o'r cynllun?

[1] Cf Acen : 'Mentora – Yr Her a'r Hwyl!'

Dyma'r cyfle i chi gael cefnogaeth un i un gan siaradwr Cymraeg a fydd yn gwrando arnoch ac yn eich annog. Po fwyaf y byddwch yn ymarfer yr hyn yr ydych wedi'i ddysgu, mwyaf hyderus y byddwch chi wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith.

**Sut fyddwch chi'n dod o hyd i fentor i mi?**
Efallai eich bod yn adnabod rhywun yn barod a allai fod yn fentor i chi yn eich tyb chi. Os felly byddwn yn cysylltu â hwy yn uniongyrchol os nad ydynt eisoes wedi ymuno â'r cynllun mentora. Fel arall, byddwn yn ceisio paru pobl sy'n gweithio ar yr un campws, a byddwn yn ceisio osgoi rhoi rheolwyr llinell gyda staff sy'n gweithio iddynt. Byddwn hefyd yn gofyn a yw'n well gan bobl rywun o'r un rhyw ai peidio. Os fyddwch yn teimlo nad yw'r berthynas fentora yn gweithio, cysylltwch â ni ac fe geisiwn ddarganfod mentor arall i chi.

**Beth fyddwch chi'n disgwyl i mi wneud?**
Rydym yn awgrymu eich bod yn treulio'r sesiwn gyntaf gyda'ch mentor yn trafod eich anghenion a'r hyn yr ydych yn ei ddisgwyl oddi wrthynt hwy. Ydych chi eisiau trafod eich gwers Gymraeg ddiweddaraf neu gael sgwrs anffurfiol? Efallai yr hoffech drafod eich gwaith cartref gyda hwy. Os ydych yn darllen deialog yn eich gwers Gymraeg efallai yr hoffech ei hymarfer gyda'ch mentor. Rydym yn awgrymu nad ydych yn gofyn cwestiynau gramadegol gymhleth gan mai rôl y mentor yw eich helpu i siarad Cymraeg yn naturiol – eich tiwtor Cymraeg sy'n gwybod am ramadeg Cymraeg! Rydym yn cynghori'r mentoriaid i beidio â chywiro eich gramadeg a'ch iaith oni bai eich bod yn gofyn yn benodol iddynt wneud. Rydym yn teimlo os ydynt wedi deall yr hyn a ddywedoch chi yna fe ddylai'r sgwrs barhau – gadewch y cywiro treigladau ayb i'r dosbarth. Y pwynt yw eich annog i siarad!

Peidiwch â chael braw os yw Cymraeg llafar eich mentor yn ymddangos yn wahanol iawn i'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu. Efallai bod ganddynt acen gref iawn, neu eu bod yn siarad tafodiaith wahanol – ond dyma yw eich cyfle i glywed Cymraeg llafar yn cael ei siarad y tu allan i'r dosbarth, a bydd y mentor yn deall eich 'Cymraeg dosbarth' yn iawn.

**Ydw i'n siarad Cymraeg yn ddigon da er mwyn ymuno â'r cynllun?**
Os ydych yn ddechreuwr pur yna bydd yn rhaid i chi roi mwy o ymdrech i'ch amser gyda'ch mentor. Bydd dysgwyr canolradd a phrofiadol yn hapus i sgwrsio am unrhyw beth gyda'u mentor ar y cyfan, ond os ydych yn ddechreuwr pur bydd yn haws i chi ddefnyddio eich gwersi fel man cychwyn. Bydd y mentor yn eich dilyn chi felly arnoch chi mae'r cyfrifoldeb i ddweud wrthynt beth rydych chi ei eisiau.

**A phwy ddylwn i gysylltu os oes gen i gwestiynau?**
Mae croeso i chi gysylltu â'r Ganolfan (canolfangymraeg@aber.ac.uk ; est. 2045) os oes gennych gwestiynau am y cynllun.